WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2018 – **Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2018

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 971A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol gan Gabrielle Smith, Anthony Ford, Anthony Veale a Dave Thomas.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Yr adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o gyfrifon 6

Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar gywirdeb a pharatoad priodol datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2017-18 6

Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yn natganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau 8

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei harwain a'i llywodraethu'n dda ar y cyfan, ond gallai wella ehangder y wybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd 8

Mae fframwaith cynllunio cydlynus sydd wedi'i alinio'n dda gyda newidiadau i ddulliau adrodd ar berfformiad ar waith i asesu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau strategol a'r gwerth a'r effaith a gyflawnir 13

Mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli ei gweithlu a'i hasedau ariannol a ffisegol yn dda ar y cyfan o ddydd i ddydd, gyda chymorth da ar gael i reolwyr a deiliaid cyllidebau, ond gallai wella agweddau ar gaffael, adroddiadau ariannol a pherfformiad y gweithlu 15

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 20

Atodiad 2 – ffi archwilio 21

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2018. Ymgymerais â'r gwaith hwnnw er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

- a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- b) bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â nhw wedi cael eu cymhwyso yn unol â'r dibenion bwriadedig ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a
- c) bodloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei defnydd o adnoddau.

2 Rwyf wedi adrodd fy nghanfyddiadau o dan y penawdau canlynol:

- Negeseuon allweddol
- Archwiliad o gyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

3 Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r adroddiad archwilio blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

4 Rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2018.

5 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 23 Ionawr 2019. Bydd y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol a bydd pob aelod yn cael copi ohono. Anogwn yr Ymddiriedolaeth i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

6 Hoffem ddiolch i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod y gwaith archwilio mae fy nhîm wedi ei gyflawni dros y 12 mis diwethaf.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o gyfrifon

7 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol ac yn faterol gywir, ac ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth sy'n berthnasol i archwilio'r cyfrifon. Felly, rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar eu paratoad.

8 Nid oedd gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw drafodion ariannol sylweddol yng nghyfrifon 2017-18 nad oeddent yn cyd-fynd ag awdurdodau, felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon 2017-18.

9 Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Mae ganddi gynllun tair blynedd cymeradwy ar waith. Gan nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu nodi, ni roddwyd unrhyw adroddiad o sylwedd ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

10 Mae fy ngwaith asesu strwythuredig 2018 yn yr Ymddiriedolaeth wedi dod i'r casgliad:

- Bod yr Ymddiriedolaeth yn cael ei harwain a'i llywodraethu'n dda ar y cyfan, ond y gallai wella ehangder y wybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd;
- Bod fframwaith cynllunio cydlynus sydd wedi'i alinio'n dda gyda newidiadau i ddulliau adrodd ar berfformiad ar waith i asesu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau strategol a'r gwerth a'r effaith a gyflawnir; a
- Bod yr Ymddiriedolaeth yn rheoli ei gweithlu a'i hasedau ariannol a ffisegol yn dda ar y cyfan o ddydd i ddydd, gyda chymorth da ar gael i reolwyr a deiliaid cyllidebau, ond y gallai wella agweddau ar gaffael, adroddiadau ariannol a pherfformiad y gweithlu.

11 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol, ond ychydig iawn o ddefnydd a wnaed o'r data a ryddhawyd yn 2017.

12 Ystyrir y canfyddiadau hyn ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o gyfrifon

13 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2017-18. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

14 Wrth archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i hincwm a'i gwariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol a gofynion eraill ac yn cydymffurfio â gofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
- a yw'r wybodaeth arall a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol (yr adroddiad blynyddol fel arfer) yn gyson â nhw; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol.

15 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

### Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar gywirdeb a pharatoad priodol datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2017-18

Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol ac yn faterol gywir, ac ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau sylweddol o ran rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth sy'n berthnasol i archwilio'r cyfrifon

16 Derbyniais wybodaeth mewn ffordd amserol a hwylus, ac ni chefais fy nghyfyngu yn fy ngwaith. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy, yn berthnasol ac yn hawdd ei deall. Deuthum i'r casgliad bod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir.

17 Adolygais y rheolaethau mewnol hynny a oedd yn berthnasol i'r archwiliad yn fy marn i er mwyn fy helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risg o gamddatganiad perthnasol yn y cyfrifon. Ni chawsant eu hystyried gennyf at ddibenion mynegi barn ar eu heffeithiolrwydd o ran gweithredu rheolaeth fewnol. Ni nododd fy adolygiad unrhyw ddiffygion sylweddol o ran rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth.

18 Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol y materion hyn i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar 30 Mai 2018. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi a rhoi sylwadau ar y materion allweddol a nodwyd.

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau heb eu cywiro | Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol, a arhosodd heb eu cywiro. |
| Camddatganiadau wedi'u cywiro | Roedd amryw o gamddatganiadau bach a gywirwyd gan reolwyr. Roedd y camddatganiadau hyn yn ymwneud â gwelliannau i ddatgeliadau, gan gynnwys rhai datgeliadau ychwanegol. Nid oedd unrhyw un o'r gwelliannau hyn yn effeithio ar y gwarged a adroddwyd gan yr Ymddiriedolaeth. |
| Materion sylweddol eraill | Nid oedd unrhyw faterion sylweddol. |

## Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yn natganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth

### Nid oedd gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw drafodion ariannol perthnasol yng nghyfrifon 2017-18 nad oeddent yn cyd-fynd ag awdurdodau, felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon 2017-18

19 Rhaid i drafodion ariannol yr Ymddiriedolaeth gyd-fynd â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Rhaid bod ganddi'r pwerau i dderbyn yr incwm a gwneud y gwariant sydd ganddi. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm neu wariant nad oes gan yr Ymddiriedolaeth y pwerau i'w derbyn neu eu gwneud.

### Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Mae ganddi gynllun tair blynedd cymeradwy ar waith. Gan nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu nodi, ni roddwyd unrhyw adroddiad o sylwedd ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth

20 Mae gennyf y pŵer i roi adroddiad o sylwedd ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth ochr yn ochr â'm barn lle rwyf eisiau tynnu sylw at faterion penodol. Ni chyhoeddais adroddiad o sylwedd ar gyfrifon gan fod yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei dyletswyddau ariannol ac nad oedd unrhyw faterion eraill yr oedd angen eu nodi.

21 Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli’r gyllideb yn 2017-18 a chadw gwarged bach (£28,000). Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswyddau ariannol i adennill costau dros gyfnod o dair blynedd (2015-16 a 2017-18) ac i fod â chynllun tymor canolig integredig cymeradwy (IMTP) ar gyfer y cyfnod rhwng 2017-18 a 2019-20.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

22 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud gwaith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd yr Ymddiriedolaeth;
- adolygu ymagwedd yr Ymddiriedolaeth at gynllunio strategol;
- archwilio’r trefniadau sydd ar waith i reoli cyllid, gweithlu, asedau a phrosesau caffael yr Ymddiriedolaeth;
- adolygu trefniadau’r Ymddiriedolaeth ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio allanol; ac
- asesu’r defnydd o ymarferion paru data fel rhan o’r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI).

23 Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn wedi’u hamlinellu isod.

## Mae’r Ymddiriedolaeth yn cael ei harwain a’i llywodraethu’n dda ar y cyfan, ond gallai wella ehangder y wybodaeth a gyflwynir i’r Bwrdd

24 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig drefniadau llywodraethu’r Ymddiriedolaeth, y ffordd mae’r Bwrdd a’i is-bwyllgorau yn cyflawni eu busnes a’r ffordd y mae’r Ymddiriedolaeth yn bodloni ei hun bod risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol yn cael eu rheoli’n dda. Asesodd hefyd i ba raddau mae strwythurau sefydliadol yn cefnogi llywodraethu da ac atebolrwydd clir. Edrychais hefyd ar y wybodaeth mae’r Bwrdd a’i bwyllgorau yn ei derbyn i’w helpu i oruchwylio a herio perfformiad a monitro cyflawniad amcanion sefydliadol. Deuthum i’r casgliadau canlynol.

## Mae'r Bwrdd yn parhau i weithredu'n effeithiol, er bod heriau o hyd o ran recriwtio cyfarwyddwyr anweithredol

25 Daeth fy ngwaith i'r casgliad bod gan yr Ymddiriedolaeth ymagwedd dda at gylch busnes y Bwrdd a phwyllgorau, gyda chynlluniau gwaith blynyddol yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â Chadeirydd yr Ymddiriedolaeth, y Prif Weithredwr, Cadeiryddion Pwyllgorau a'r cyfarwyddwyr gweithredol arweiniol perthnasol. Mae'r gwaith o weinyddu cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau yn dda. Mae cyfarfodydd yn rhedeg ar amser ac yn galluogi trafodaethau a her briodol. Mae sicrwydd a risgiau yn llifo'n dda o'r pwyllgorau i'r Bwrdd ac mae digon o amser ar gael yng nghyfarfodydd y Bwrdd i gadeiryddion pwyllgorau gyflwyno materion sy'n codi. Lle'n briodol, mae'r Bwrdd yn dirprwyo gwaith goruchwylio a chraffu i'w bwyllgorau.

26 Ym mis Mai 2018, cymeradwyodd y Bwrdd fframwaith penderfynu yr aeth aelodau'r Bwrdd ati i'w ddatblygu ar y cyd. Mae'r fframwaith yn gweithredu fel canllaw i'r rhai sy'n datblygu cynigion y mae angen i'r bwrdd wneud penderfyniad arnynt a'r meini prawf y dylai aelodau'r bwrdd eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo cynigion ai peidio. Ar hyn o bryd, mae Is-adran Ymchwil yr Ymddiriedolaeth yn gwerthuso'r fframwaith penderfynu trwy adolygu penderfyniadau blaenorol y bwrdd i asesu pa mor dda mae penderfyniadau'n cyfateb i'r meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniad.

27 Ers fy adroddiad yn 2017, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella'r broses o ddogfennu prosesau llywodraethu fel rhan o raglen waith arfaethedig, gan gychwyn gyda diwygiadau i'w Rheolau Sefydlog, a gymeradwyodd y Bwrdd ym mis Ionawr 2018. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu diwygio ei Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFIs) yn unol â gwaith cenedlaethol parhaus. Yn ogystal, mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer datganiadau o fuddiant, rhoddion a lletygarwch wedi'u diwygio a llofnodwyr perthnasol wedi'u targedu i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac i ddatgan unrhyw fuddiannau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu fersiwn hawdd ei darllen o'r Polisi Datganiadau o Fuddiant, Rhoddion, Lletygarwch a Nawdd fel rhan o waith i ailwampio ei thudalennau llywodraethu ar y fewnrwyd.

28 Yn 2017, sylwais fod yr angen i lenwi swyddi anweithredol gwag yn datblygu'n sefyllfa ddifrifol. Ymunodd dau gyfarwyddwr anweithredol â'r Bwrdd ar sail rhannu swydd ym mis Ebrill 2018, ond mae swyddi gwag yn bodoli o hyd ac mae recriwtio'n dal i fod yn anodd. Mae trefniadau ar waith i gynyddu capasiti yn y tymor byr. Aeth y Bwrdd ati i adolygu a diwygio cylch gorchwyl pob pwyllgor i sicrhau cysondeb o ran nifer yr aelodau a chworwm ac i helpu i reoli llwythi gwaith yn well.

29 Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau wedi ymrwymo i adolygu eu heffeithiolrwydd ac mae cylch o hunanasesiadau rheolaidd wedi'i gynnwys mewn cynlluniau gwaith blynyddol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod diffyg capasiti yn ysgrifenyddiaeth y bwrdd yn ystod haf 2018 wedi effeithio ar fynychder yr adroddiadau yn erbyn camau gweithredu i fynd i'r afael â'r gwelliannau a nodir. Y bwriad oedd i'r Pwyllgor Pobl a Datblygiad Sefydliadol adolygu ei effeithiolrwydd yn gynnar yn 2018 ond, gan na wireddwyd hynny, y bwriad bellach yw i hynny gael ei wneud yn ystod yr hydref pan fydd Cadeirydd newydd y Pwyllgor yn cychwyn yn ei rôl. Nododd y

Bwrdd yr angen i gynyddu ei weledededd ymhlith staff, ac mae'n gwneud cynnydd rhesymol tuag at wneud hynny.

30 Mae'r datblygiad gwybodaeth a sefydlu penodol i'r pwyllgor yn cael ei drafod fel rhan o raglen ddatblygu ehangach y bwrdd sy'n cael ei threfnu gan dîm Pobl a Datblygiad Sefydliadol yr Ymddiriedolaeth. Yn ogystal, mae'r Ymddiriedolaeth wedi comisiynu arbenigwyr i helpu cadeiryddion pwyllgorau i wella eu sgiliau o ran darparu sicrwydd i'r Bwrdd a darparu cyngor strategol annibynnol i aelodau'r bwrdd, er enghraifft, ym maes rheolaeth ariannol.

### Mae gan yr Ymddiriedolaeth fframwaith sicrwydd bwrdd (BAF) sydd wedi'i ddatblygu'n dda ac sy'n cael ei gefnogi gan system rheoli risg effeithiol

31 Mae fframwaith sicrwydd bwrdd (BAF) yr Ymddiriedolaeth – sef y ddogfen allweddol sy'n amlinellu'r amcanion, y risgiau, y rheolaethau a'r sicrwydd strategol allweddol i'r bwrdd – wedi hen ennill ei blwyf. Cafodd fformat y BAF ei ddiwygio yn 2018 mewn ymgynghoriad ag aelodau'r bwrdd, a bu'r Bwrdd yn gweithio ar y cyd i nodi'r risgiau strategol. Cytunodd y Bwrdd ar yr archwaeth risg ar gyfer pob blaenoriaeth strategol ac, ar y cyd, mae'r archwaethau risg unigol yn ffurfio'r datganiad blynyddol o risg, a amlinellir yng nghynllun gweithredol blynyddol yr Ymddiriedolaeth. Nododd pob aelod o'r bwrdd a ymatebodd i'm harolwg eu bod yn deall y risgiau i gyflawni amcanion strategol a sut mae'r risgiau hyn yn cael eu rheoli, ac mae gwybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd yn eu galluogi i graffu'n effeithiol ar gamau a gymerir i liniaru risgiau. Y llynedd, roeddwn yn feirniadol o'r ffaith mai ychydig iawn o amser oedd yn cael ei ddyrannu ar agendâu pwyllgorau ar gyfer craffu ar y BAF, ac mae adolygiad o agendâu cyfarfodydd a gwaith arsylwi ar gyfarfodydd pwyllgorau yn dangos bod mwy o amser bellach yn cael ei ddyrannu a'i ddefnyddio i adolygu'r BAF.

32 Mae gan yr Ymddiriedolaeth system rheoli risg sydd wedi hen ennill ei phlwyf. Mae gwaith i ddatblygu matrics aeddfedrwydd risg yn seiliedig ar ofynion safon rheoli risg ryngwladol ISO31000 wedi'i gwblhau. Yn ystod haf 2018, hunanasesodd yr Ymddiriedolaeth ei system rheoli risg, gan ddod i'r casgliad ei bod yn 'datblygu', hynny yw, ei bod yn bodloni gofynion safon ISO31000 ar y cyfan.

### Mae system sicrwydd yr Ymddiriedolaeth yn gadarn ar y cyfan, ond mae lle i wella'r wybodaeth a adroddir i'r Bwrdd am ehangder busnes yr Ymddiriedolaeth

33 Daeth fy ngwaith i'r casgliad bod system yr Ymddiriedolaeth ar gyfer diweddaru polisïau a gweithdrefnau sefydliadol yn parhau i weithio'n dda. Ar hyn o bryd, mae 61% o bolisïau a gweithdrefnau'r sefydliad yn gyfredol, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio cynyddu'r gyfran hon i 75% cyn diwedd mis Mawrth 2019.

34 Mae’r Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau a gwella trefniadau llywodraethu gwybodaeth a diogelwch gwybodaeth. Mae ei hunanasesiad blynyddol, sy’n defnyddio’r pecyn cymorth ‘Caldicott Principles into Practice’ (C-PIP)[1], yn dangos gwelliant parhaus, ac mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth wedi gwella hefyd, i 89%. Mae Cofrestr Asedau Gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth bellach yn adnodd byw a deinamig, gydag asedau gwybodaeth yn cael eu hychwanegu a’u dileu fel sy’n ofynnol.

35 Yn gynnar yn 2018, cynhaliwyd adolygiad allanol o lywodraethu gwybodaeth a diogelwch gwybodaeth yn yr Ymddiriedolaeth fel rhan o raglen waith ehangach ar draws GIG Cymru. Nododd yr adolygwyr feysydd i’w gwella y mae’r Ymddiriedolaeth yn mynd i’r afael â nhw, ac mae cynnydd yn cael ei fonitro’n rheolaidd gan y ddau gyfarwyddwr gweithredol sy’n gyfrifol am wybodeg a llywodraethu gwybodaeth a diogelwch gwybodaeth. Mae fy adolygiad o bapurau’r Bwrdd a phwyllgorau yn dangos nad oedd y Bwrdd na’i Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella wedi ystyried canfyddiadau’r adolygiad allanol, ac eithrio mewn perthynas â pharodrwydd ar gyfer GDPR. Er gwaethaf y cynnydd da a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth a’r oruchwyliaeth a ddarperir gan y cyfarwyddwyr gweithredol, ni chafodd argymhellion yr aseswyr allanol eu hystyried gan y Bwrdd na’i bwyllgorau yn yr un modd â’r rhai sy’n deillio o adolygiadau allanol neu adolygiadau eraill gan gymheiriaid.

36 Am y tro cyntaf yn 2018, nododd y Bwrdd seiberddiogelwch fel risg strategol, gan i nodi ar y BAF. Mae’r Ymddiriedolaeth yn gweithredu i sicrhau bod y rheolaethau priodol ar waith i liniaru’r risg ochr yn ochr â gwaith parhaus i fynd i’r afael â’r gwelliannau a nodir gan yr adolygwyr allanol. Mae diogelwch gwybodaeth yn parhau i gael ei reoli o fewn y Polisi Rheoli Risg cyffredinol. Mae’r Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei chapasiti a’i gallu mewn perthynas â seiberddiogelwch hefyd, ac mae wedi penodi arbenigwr.

37 Roeddwn yn feirniadol yn 2017 nad oedd Fframwaith Cyflenwi IMTP yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys mesurau perfformiad ar gyfer elfennau pwysig o fusnes yr Ymddiriedolaeth. Rwy’n argymell y dylai mesurau ymarferol gael eu datblygu i sicrhau'r un lefel o graffu ar draws holl weithgareddau busnes y bwrdd. Mae’r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd yn erbyn Fframwaith Cyflenwi IMTP yr Ymddiriedolaeth yn dal i fod fwy neu lai yr un fath, ac nid yw’r Fframwaith Cyflenwi wedi’i ehangu i gynnwys mesurau sy’n cwmpasu ehangder llawn busnes yr Ymddiriedolaeth.

38 Yn 2017, daeth y Bwrdd i’r casgliad bod y wybodaeth y mae’n ei derbyn yn dderbyniol ond bod yna botensial i’w gwella. Daeth fy arolwg o aelodau’r bwrdd i’r casgliad bod pob aelod o’r bwrdd yn hyderus ar y cyfan ynglŷn ag ansawdd a

[1] Rhaid i sefydliadau’r GIG asesu cydymffurfiaeth gan ddefnyddio’r pecyn cymorth ‘Caldicott Principles into Practice’ i sicrhau bod gwybodaeth sy’n adnabod cleifion yn cael ei diogelu ac ond yn cael ei defnyddio pan fydd hi’n briodol gwneud hynny, ynghyd â rhoi cynllun gweithredu ar gyfer gwelliant ar waith.

chywirdeb y wybodaeth a dderbynnir a'i bod yn ddigonol i lywio penderfyniadau a chefnogi craffu effeithiol. Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o'r bwrdd yn ffyddiog bod y wybodaeth a dderbynnir gan y Bwrdd yn cwmpasu ehangder busnes neu faterion strategol y sefydliad.

39 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno sawl ffrwd waith i ddangos ansawdd ac effaith ei gwaith fel rhan o'i threfniadau llywodraethu ansawdd ehangach. Sefydlodd yr Ymddiriedolaeth y 'prosiect mesur gwerth ac effaith' i ddiffinio'r hyn mae gofal iechyd seiliedig ar werthoedd yn ei olygu i'r sefydliad, gyda gwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar y defnydd o adnoddau i gyflawni gwerth ac effaith. Yn y cyfamser, daeth gwaith i ddatblygu dangosyddion ansawdd ac effaith i ben yn gynharach eleni. Datblygwyd dangosyddion ansawdd ac effaith (yn canolbwyntio ar ddiogelwch, effeithiolrwydd, adborth, arweinyddiaeth a diwylliant) mewn partneriaeth â staff y gyfarwyddiaeth ac isadrannau, ac fe'u cymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mai 2018. Mae'r dangosyddion ansawdd ac effaith bellach yn rhan o'r adran ansawdd yn yr adroddiad perfformiad integredig. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu adolygu a mireinio'r dangosyddion ansawdd ac effaith yn flynyddol, gyda'r adolygiad cyntaf i'w gynnal ddiwedd mis Mawrth 2019.

### Mae dull y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol o olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio mewnol ac allanol yn dal i weithio'n dda

40 Mae dull y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol o olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio mewnol ac allanol wedi hen ennill ei blwyf. Mae cynnydd yn cael ei ystyried ym mhob cyfarfod ac mae cyflymder y cynnydd yn cael ei herio'n rheolaidd. Mae swyddogion yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fynychu cyfarfodydd pwyllgorau fel rhan o'r her hon, yn enwedig pan fo camau gweithredu'n cymryd hirach na'r disgwyl a lle mae adroddiadau archwilio yn darparu sicrwydd cyfyngedig. Os oes mater sy'n destun gwaith craffu yn un sylweddol, bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau cynnydd yn amlach oherwydd yr amser rhwng cyfarfodydd.

### Mae strwythurau'r sefydliad a'i bwyllgorau yn newid i wella'r gwaith o oruchwylio a chraffu ar swyddogaethau statudol a chyflawni blaenoriaethau strategol

41 Daeth fy ngwaith i'r casgliad bod penodi Cadeirydd newydd ym mis Medi 2018 a datblygu'r strategaeth hirdymor wedi ysgogi'r Bwrdd i arfarnu trefniadau pwyllgorau a'r cynllun sefydliadol yn feirniadol. Nododd yr angen i sefydlu Pwyllgor Deallusrwydd, Ymchwil a Gwybodaeth i ddarparu cyngor a sicrwydd mewn perthynas ag ansawdd ac effaith gweithgareddau gwybodaeth, ymchwil a deallusrwydd iechyd yr Ymddiriedolaeth. Bydd y pwyllgor newydd yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros lywodraethu ymchwil, ansawdd data a llywodraethu gwybodaeth sy'n cael eu hysgwyddo gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella ar hyn o bryd. Mae Grŵp Ystadegau Swyddogol wedi'i sefydlu i sicrhau bod yr

Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei rôl fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol ac yn cydymffurfio â Chod Ymarfer 2008 ar gyfer Ystadegau.

42 Nid yw strwythur sefydliadol yr Ymddiriedolaeth wedi newid llawer ers 2015. Ar adeg ein harchwiliad, roedd yr Ymddiriedolaeth yn ymgynghori â staff ar gynigion i'r ffordd mae rhai swyddogaethau a thimau'n cael eu trefnu. Y cynnig mwyaf trawiadol yw i uno'r swyddogaethau tystiolaeth, ymchwil a deallusrwydd iechyd mewn Cyfarwyddiaeth Gwybodaeth newydd, a fydd yn mynd i'r afael ag argymhellion o'r adolygiad allanol gan gymheiriaid o'i swyddogaeth deallusrwydd iechyd, ynghyd â chryfhau'r broses o oruchwylio ar y swyddogaethau hyn ar lefel y bwrdd.

43 Mae'r Ymddiriedolaeth yn sefydlu isadran llywodraethu newydd yn y Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd. Bydd y Gyfarwyddiaeth hon yn uno'r swyddogaeth llywodraethu corfforaethol sy'n cael ei hysgwyddo gan Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd ar hyn o bryd â'r trefniadau ansawdd a llywodraethu clinigol, llywodraethu gwybodaeth a rheoli risg sydd eisoes yn cael eu hysgwyddo gan y gyfarwyddiaeth. Bydd cyfrifoldeb dros lywodraethu ymchwil yn cael ei ysgwyddo gan y Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth newydd. Bydd Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd yn dod yn Uned Fusnes y Bwrdd, a fydd yn darparu cyngor a chymorth i'r Bwrdd i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau.

## Mae fframwaith cynllunio cydlynus sydd wedi'i alinio'n dda gyda newidiadau i ddulliau adrodd ar berfformiad ar waith i asesu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau strategol a'r gwerth a'r effaith a gyflawnir

44 Archwiliodd fy ngwaith sut mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â phartneriaid ac yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer y sefydliad. Asesais hefyd pa mor dda mae'r Ymddiriedolaeth yn cynllunio cyflawniad ei hamcanion a sut mae'n monitro cynnydd o ran darparu'r cynlluniau. Mae fy nghanfyddiadau wedi'u hamlinellu isod.

### Mae yna ymagwedd gydlynus at gynllunio strategol ac mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i alinio cynlluniau'r gweithlu yn fwy effeithiol

45 Ym mis Gorffennaf 2018, cymeradwyodd y Bwrdd strategaeth hirdymor yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2018-30, sef penllanw gwaith ymgysylltu helaeth â staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn ystod 2017. Mae'r cynllun tymor canolig integredig (IMTP), a gymeradwywyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mehefin 2018, yn amlinellu'r amcanion strategol sy'n sail i'r strategaeth hirdymor. Mae cynllun gweithredol blynyddol yr Ymddiriedolaeth yn disgrifio'r camau gweithredu allweddol a'r cerrig milltir cysylltiedig i'w cyflawni neu eu darparu fesul mis ym mlwyddyn gyntaf yr IMTP.

46 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddefnyddio dull o'r gwaelod i fyny cynhwysol i ddatblygu'r IMTP. Hwylusodd ei thîm cynllunio a pherfformiad gyfres o ddigwyddiadau cynllunio rheolaidd fell y gellir cynllunio ar draws sefydliadau a gwella ymwybyddiaeth o gyfraniad cyfunol cyfarwyddiaethau at y gwaith o gyflawni amcanion strategol ac i atal cyfarwyddiaethau rhag cynllunio mewn seilos.

47 Mae cynllun ariannol cytbwys yn sail i'r IMTP. I gyflawni cydbwysedd ariannol yn 2018-19, rhaid i'r Ymddiriedolaeth gyflawni arbedion o £2.19 miliwn. Er bod gan yr Ymddiriedolaeth hanes o gyflawni arbedion, eleni aeth ati i gynnwys elfen ar gyfer tangyflawniad yn y rhagdybiaethau cynllunio ariannol i sicrhau cynllun wrth gefn ar gyfer unrhyw broblemau, yn enwedig mewn perthynas ag arbedion sy'n cael eu categoreiddio fel rhai risg uchel. O gyfanswm yr arbedion a nodir, mae £400,000 o'r arbedion arfaethedig yn gysylltiedig â ffrydiau gwaith effeithlonrwydd i greu buddsoddiad ychwanegol yn ystod y flwyddyn, er na ddisgwylir i'r arbedion hyn gael eu gwireddu tan rywfaint o'r ffordd trwy'r flwyddyn.

48 Nid oes cynllun gweithlu sefydliad cyfan yn sail i'r IMTP ar hyn o bryd. Yn hytrach, mae'r IMTP yn darparu ciplun o broffil y gweithlu ac yn nodi sawl her i'r gweithlu a nodir yng nghynlluniau'r gweithlu ar lefel y gyfarwyddiaeth ac is-adrannau. Disgwylir y bydd cynllun gweithlu sefydliad cyfan ar waith erbyn diwedd 2018 i lywio IMTP 2019-22.

49 Y llynedd, adroddais fod yr Ymddiriedolaeth yn bwriadu cyflwyno rhaglen uchelgeisiol o ddatblygiadau gwybodeg i gefnogi cyflawniad ei IMTP, ond nad oedd y strategaeth ddigidol na threfniadau rheoli'r rhaglen wedi'u cymeradwyo na'u rhoi ar waith. Nid yw'r strategaeth ddigidol wedi'i chytuno'n ffurfiol hyd yma ac mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu diweddaru ei dull digidol yn unol â'r strategaeth hirdymor. Heblaw am y trefniadau ar gyfer sgorio cynigion am gyfalaf dewisol, nid oes unrhyw drefniadau ffurfiol ar waith i flaenoriaethu datblygiadau digidol. Dylai newidiadau arfaethedig i strwythurau sefydliadol a phwyllgorau gefnogi blaenoriaethu a sicrhau gwaith goruchwylio a chraffu priodol ar gyflymder darparu'r strategaeth ddigidol.

## Nid yw'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar y cynllun blynyddol wedi newid llawer, ac mae cynnydd yn cael ei adrodd yn amlach

50 Mae'r Bwrdd yn cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol dros oruchwylio a chraffu ar y cynllun blynyddol, ac mae'r cyfrifoldeb gweithredol dros ddarpariaeth yn dal i gael ei ysgwyddo gan gyfarwyddwyr is-adrannau ac uwch reolwyr eraill sy'n atebol i'r tîm gweithredol. Ar adeg fy archwiliad, roedd yr Ymddiriedolaeth yn datblygu fframwaith atebolrwydd newydd ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau strategol unigol a amlinellir yn yr IMTP a'r cynllun blynyddol. Bwriad yr Ymddiriedolaeth yw gwella arweinyddiaeth a gwaith ar draws sefydliadau i gyflawni ei blaenoriaethau strategol, ond mae'n rhy gynnar i lunio barn ar effeithiolrwydd y trefniadau newydd hyn.

51 Yn 2017, roeddwn yn feirniadol o'r ffaith nad oedd adroddiadau yn erbyn y cynllun blynyddol yn cael eu cyhoeddi'n aml o ystyried bwriad yr Ymddiriedolaeth i adrodd yn chwarterol. Eleni, gwelais fod y Bwrdd bellach yn derbyn adroddiadau chwarterol ar gynnydd. Mae cynnydd yn cael ei grynhoi yn yr adroddiad perfformiad integredig a gyflwynir i'r Bwrdd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r system 'RAG' (coch, ambr, gwyrdd) i dynnu sylw at nifer y camau gweithredu a amlinellir yn y cynllun sydd ar y trywydd iawn, sydd wedi'u cwblhau o fewn cerrig milltir a gytunwyd neu sydd ar ei hôl hi. Mae rhesymau dros oedi wedi'u hamlinellu mewn adroddiad eithrio manwl lle mae cyflawniad yn erbyn cerrig milltir â blaenoriaeth strategol ar ei hôl hi neu lle na fydd y gwaith yn cael ei gwblhau o fewn yr amserlenni a gytunwyd.

52 Mae IMTP yr Ymddiriedolaeth yn amlinellu ei weledigaeth i ddylunio a chyflwyno fframwaith rheoli perfformiad newydd i ddangos cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau strategol yn fwy effeithiol, ynghyd â'r gwerth a'r effaith a gyflawnir. Fodd bynnag, mae fy ngwaith yn dangos ei bod hi'n debygol y bydd hyn yn cymryd mwy o amser os bydd angen i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu a chytuno ar fesurau canlyniadau ac effaith yn ymwneud â'i blaenoriaethau strategol.

53 Daeth fy ngwaith i'r casgliad y bydd agendâu'r Bwrdd yn y dyfodol yn cael eu trefnu i alluogi ystyriaeth fanwl o un flaenoriaeth strategol ym mhob cyfarfod, ar wahân i flaenoriaeth strategol 7 (gwella a defnyddio gwybodaeth a sgiliau i wella iechyd a llesiant ledled Cymru). Bydd blaenoriaeth 7 yn cael ei chyflawni yn bennaf gan rannau o fusnes yr Ymddiriedolaeth nad ydynt yn cael eu monitro na'u hadrodd ar hyn o bryd fel rhan o'r Fframwaith Cyflawni neu eu cipio yn yr adroddiad perfformiad integredig. Felly, efallai y bydd y cyfle am sicrwydd yn cael ei golli oni bai bod pwyllgor newydd y Bwrdd yn darparu'r gwaith goruchwylio a chraffu a sicrwydd y bwrdd.

## Bod yr Ymddiriedolaeth yn rheoli ei gweithlu a'i hasedau ariannol a ffisegol yn dda ar y cyfan o ddydd i ddydd, gyda chymorth da ar gael i reolwyr a deiliaid cyllidebau, ond y gallai wella agweddau ar gaffael, adroddiadau ariannol a pherfformiad y gweithlu

54 Archwiliodd fy ngwaith drefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli ei gweithlu, ei harian a'i hasedau ffisegol eraill i gefnogi'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Ystyriais hefyd y trefniadau ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Mae fy nghanfyddiadau wedi'u hamlinellu isod.

### Mae trefniadau a chymorth yr Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli a datblygu'r gweithlu yn parhau i wella, gyda gwelliannau'n cael eu hadlewyrchu mewn rhai mesurau perfformiad allweddol

55 Mae'r Ymddiriedolaeth yn perfformio'n well mewn perthynas ag absenoldeb salwch o gymharu â chyfartaledd Cymru, ond mae'r cyfartaledd treigl 12 mis presennol yn uwch na'r targed o 3.25%. Cofnodwyd 1,846 o gyfnodau o absenoldeb salwch yn ystod 2017-18 ac, o'r rhain, parodd 72% saith diwrnod neu lai, gan arwain at golli 3,547 o ddiwrnodau gwaith. Yn ystod 2017-18, costiodd pob cyfnod o absenoldeb salwch £2.1 miliwn i'r Ymddiriedolaeth mewn costau cyflog yn unig.

56 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno pob math o fentrau i ddeall a mynd i'r afael ag absenoldeb salwch, ond nid yw effaith y mentrau hyn ar gyfradd gyfartalog dreigl 12 mis absenoldeb salwch yn amlwg hyd yma. 'Pryder/straen/iselder/salwch seiciatrig arall' yw'r rheswm mwyaf cyffredin a roddir dros absenoldeb salwch. Datblygodd yr Ymddiriedolaeth bolisi atal straen a lles meddyliol, a rhoddodd fentrau ar waith i helpu i reoli straen a phryder ac i wella lles meddyliol yn y gweithle. Efallai ei bod hi'n rhy gynnar i asesu effaith y mentrau hyn ar absenoldeb salwch, ond mae cyfran yr absenoldebau a briodolir i'r rheswm hwn yn lleihau, o 31.9% ym mis Gorffennaf 2017 i 25.5% ym mis Awst 2018.

57 Er bod cyfradd trosiant yr Ymddiriedolaeth (10.3%) yn uwch na chyfartaledd Cymru (6.9%), mae'n lleihau ac yn well na'r gyfradd a adroddais y llynedd (11.9%). Mae'r Ymddiriedolaeth yn ailgyflwyno cyfweliadau ymadael ochr yn ochr â'r holiadur ymadael sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, yn cynyddu gweithio hyblyg ac yn gwneud mwy o waith i archwilio'r defnydd o gontractau tymor penodol o ystyried y ffaith mai dyma un o'r rhesymau mwyaf cyffredin dros ymadael. Er bod y gyfradd trosiant yn gymharol uchel, mae nifer y swyddi gwag a hysbysebir mewn un mis yn fach iawn ac mae'r amser a gymerir i recriwtio[2] yn parhau i wella. Ym mis Gorffennaf 2018, roedd recriwtio'n cymryd 41.4 o ddiwrnodau.

58 Mae cydymffurfiaeth ag arfarniadau blynyddol ac adolygiadau perfformiad ar gyfer staff nad ydynt yn staff meddygol a staff nad ydynt yn staff deintyddol yn gwella ac, ym mis Medi, roedd 57% o'r staff wedi cael eu harfarnu yn y 12 mis blaenorol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ffyddiog bod y gyfradd cydymffurfiaeth yn uwch gan nad yw'r holl wybodaeth arfarnu yn cael ei chipio'n rheolaidd ar y Cofnod Staff Electronig. Mae'r honiad hwn yn cael ei gefnogi gan ganfyddiadau arolwg staff 2018 GIG Cymru, lle adroddodd 80% o staff yr Ymddiriedolaeth eu bod wedi cael arfarniad ac adolygiad perfformiad yn y 12 mis diwethaf o gymharu â 71% yn 2016. Yn y cyfamser, mae'r gyfradd cydymffurfiaeth ag arfarniad meddygol/deintyddol ac ail-ddilysu yn 100%. Mae'r gyfradd cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol (h.y. y fframwaith hyfforddiant sgiliau craidd) yn 89%, sy'n fwy na tharged

[2] Mae amser i recriwtio yn cael ei fesur o'r amser mae'r hysbyseb yn cael ei gosod tan i bob gwiriad cyn cyflogaeth gael ei gwblhau ac, ers mis Ebrill 2016, mae'r mesurau hefyd yn cynnwys y mater o lythyr cynnig diamod.

GIG Cymru (85%), ac mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i weithio tuag at ei tharged cydymffurfiaeth ei hun o 95%.

59 Gwariant yr Ymddiriedolaeth ar staff asiantaeth yn 2017-18 oedd £2.1 miliwn, sef dwywaith yr hyn ydoedd y flwyddyn flaenorol. Roedd y gwariant ar staff asiantaeth fel cyfran o gyfanswm y tâl cyflog yn 2.8% o gymharu â 3.7% ledled Cymru (yn amrywio o 0.3% i 6.5%). Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd y gwariant ar staff asiantaeth yr un fath eleni o ystyried ei dibyniaeth barhaus ar staff locwm a staff asiantaeth yn yr Is-adran Microbioleg lle mae'r broses o recriwtio gwyddonwyr biomeddygol a microbiolegwyr meddygol ymgynghorol yn cyflwyno her fawr.

60 Fodd bynnag, mae'r gyfran uchaf o wariant ar staff asiantaeth ar staff gweinyddol a chlerigol. Fel rhan o arbedion effeithlonrwydd sefydliadol eleni, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cyflawni arbedion o £200,000 trwy leihau'r defnydd o staff asiantaeth gweinyddol a chlerigol. Yn y dyfodol, bydd pob cais am staff asiantaeth gweinyddol a chlerigol yn cael ei gyflwyno i Banel Rheoli Sefydliad yr Ymddiriedolaeth i'w gymeradwyo. Ar gyfer pob cais a wrthodir, bydd y gyllideb yn cael ei thynnu o'r ganolfan gost berthnasol a'i chadw'n ganolog. Ar ddiwedd mis Hydref, dangosodd ffurflen ariannol yr Ymddiriedolaeth i Lywodraeth Cymru nad oedd wedi cyflawni unrhyw un o'r arbedion effeithlonrwydd arfaethedig.

61 Yn 2017, cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth becyn cymorth cynllunio'r gweithlu a hyrwyddir yn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru a darparodd hyfforddiant i reolwyr y gyfarwyddiaeth ac is-adrannau sy'n gyfrifol am gynllunio'r gweithlu. Er bod rheolwyr yn gallu cyflwyno eu gweledigaeth ar gyfer y gweithlu ar y cyfan, roedd hyd a lled y ddealltwriaeth o ffactorau sy'n effeithio ar gynllunio'r gweithlu yn amrywio. Nododd yr Ymddiriedolaeth hefyd yr angen i gynnwys ei Phenaethiaid Proffesiynau yn y gwaith o gynllunio'r gweithlu yn strategol i nodi materion ar draws sefydliadau ar gyfer gwahanol grwpiau proffesiynol. Defnyddiodd yr Ymddiriedolaeth gynlluniau'r gweithlu ar lefel cyfarwyddiaeth ac is-adrannau i nodi themâu cyffredin yn ymwneud â dysgu a datblygu, megis rheoli newid a'r angen i alinio anghenion datblygu unigol â'r sgiliau sydd eu hangen ar yr Ymddiriedolaeth i gyflawni'r strategaeth hirdymor.

## Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheolaeth ariannol yn parhau i weithio'n dda gyda chymorth da ar gyfer deiliaid cyllidebau, ond mae yna le i wella agweddau ar adroddiadau ariannol a chydymffurfiaeth â phrosesau caffael

62 Daeth fy ngwaith i'r casgliad bod trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli a chraffu ar berfformiad ariannol, gan gynnwys cynlluniau cynilo, yn gadarn ar y cyfan. Mae'r model partner busnes cyllid yn darparu cymorth effeithiol i ddeiliaid cyllidebau i'w helpu i graffu ar y sefyllfa ariannol yn ymwneud â chyllidebau a chytuno ar y camau sydd angen eu cymryd i reoli risgiau ac adennill gorwariant. Mae'r tîm gweithredol yn parhau i graffu ar y sefyllfa ariannol yn chwarterol, gan gynnwys perfformiad cynlluniau cynilo unigol.

63 Mae cynnwys a fformat yr adroddiadau cyllid i'r Bwrdd yn dal i fod fwy neu lai yr un fath. Y llynedd, argymhellais y dylai'r Ymddiriedolaeth gynnwys gwybodaeth am berfformiad cynlluniau ail-fuddsoddi a ariennir trwy arbedion effeithlonrwydd arfaethedig. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn bwriadu cynnwys gwybodaeth o'r chweched mis ymlaen wrth iddi wneud buddsoddiadau. Fodd bynnag, nid oedd adroddiad diweddaraf y bwrdd (Tachwedd 2018) yn cynnwys gwybodaeth am unrhyw ailfuddsoddiadau.

64 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ragweld y bydd yn adennill costau ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019 ac, ar ddiwedd mis Hydref, dangosodd ei ffurflen monitro ariannol i Lywodraeth Cymru warged bach (£55,000). Mae adroddiad perfformiad integredig yr Ymddiriedolaeth i'r Bwrdd yn gyson â ffurflen monitro ariannol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nodwyd gwahaniaeth rhwng y ffurflen monitro ariannol a'r adroddiad perfformiad integredig mewn perthynas â chyfanswm yr arbedion a gyflawnir.

65 Mae ffurflen monitro ariannol Llywodraeth Cymru yn dangos bod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflawni £1.14 miliwn (52%) o'i arbedion arfaethedig (£2.198 miliwn) erbyn diwedd mis Hydref. Yn seiliedig ar ein trafodaethau â swyddogion, mae'r ffurflen monitro ariannol yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod arbedion yn cael eu cynllunio a'u cyflawni mewn deuddegfedau cyfartal fwy neu lai. Fodd bynnag, cafodd cyllidebau'r gyfarwyddiaeth ac is-adrannau eu lleihau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i sicrhau lefel yr arbedion sy'n ofynnol. Felly, roedd arbedion blwyddyn llawn o £2.11 miliwn (96%), y gellir eu priodoli i gyflog yn bennaf, eisoes wedi'u cyflawni ar ddiwedd mis Hydref a'u hadrodd i'r Bwrdd trwy'r adroddiad perfformiad integredig. Mae'r ffurflen monitro ariannol ar gyfer y seithfed mis, fodd bynnag, yn dangos nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni unrhyw arbedion effeithlonrwydd sefydliadol (£400,000), er ei bod yn disgwyl iddynt gael eu gwireddu rhan o'r ffordd drwy'r flwyddyn. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd nad yw ei rhagolwg i adennill costau yn ddibynnol mwyach ar gyflawniad yr arbedion effeithlonrwydd sefydliadol hyn.

66 Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth gynllun caffael cyffredinol, gyda gweithgarwch caffael yn cael ei sbarduno'n bennaf gan gynlluniau cyfalaf sy'n gysylltiedig ag amnewid asedau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau trefniadau caffael i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau. Mae'n datblygu system hefyd i gipio gweithgarwch caffael arfaethedig a fydd, yn ei dro, yn llywio cynllun gwaith caffael. Dylai'r system sicrhau hefyd fod cyngor ac arweiniad amserol ar gael.

67 Mae'r capasiti caffael yn gyfyngedig, gyda gweithgarwch caffael wedi'i ddatganoli'n bennaf i Wasanaethau Caffael Cydwasanaethau'r GIG (Gwasanaethau Caffael) trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Bennaeth Caffael sy'n gweithio i uwchsgilio'r tîm cyllid i gefnogi gweithgarwch caffael yn well. Mae'r Ymddiriedolaeth yn sefydlu model partner busnes caffael i atgyfnerthu swyddogaethau a chyfrifoldebau ei staff, ac mae grŵp hyrwyddwyr caffael ar waith i atgyfnerthu cydymffurfiaeth gweithdrefnol o ddydd i ddydd a sicrhau bod yr amserlen gaffael yn cael ei goruchwylio.

68 Mae Grŵp Arweinwyr Busnes yr Ymddiriedolaeth, sy'n cynnwys y Pennaeth Caffael, yn monitro gweithgarwch caffael ar lefel weithredol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn adroddiad caffael rheolaidd sy'n darparu gwybodaeth am gamau gweithredu dyfynbrisiau sengl (SQA) a chamau gweithredu tendrau sengl (STA) ac estyniadau contract fel sy'n ofynnol gan SFIs yr Ymddiriedolaeth. Mae'r SFIs yn amlinellu'r gofyniad i geisio cael dyfynbrisiau cystadleuol wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau dros werth penodol. Dylai SQAs ac STAs fod yn eithriad a dylid ond eu defnyddio pan fo angen cwmni neu gontractwr sengl neu eitem gwasanaeth briodol.

69 Daeth fy adolygiad o'r wybodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor i'r casgliad ei bod hi'n ymddangos bod nifer yr STAs a'r SQAs wedi cynyddu o 40 i 59 rhwng mis Medi 2016 a mis Awst 2018. Newidiodd fformat yr adroddiadau caffael rhwng blynyddoedd ac, erbyn hyn, mae'n cynnwys gwybodaeth am STAs ac SQAs lle mae nodyn ffeil wedi'i roi fel cofnod o benderfyniadau neu awdurdodiad o amrywiadau o arfer. Efallai mai'r newid yn fformat yr adroddiadau sy'n gyfrifol am y cynnydd yn nifer yr STAs a'r SQAs. Yn seiliedig ar y naratif a gyflwynwyd yn yr adroddiadau caffael ar ôl mis Medi 2017, dim ond 28 o'r 59 o STAs ac SQAs a ardystiwyd, hynny yw, a ddilynodd weithdrefnau caffael. Roedd y 31 arall 'heb eu hardystio'. Er hynny, aeth y gwaith caffael yn ei flaen, gan nodi nad yw'r rheolaethau'n gweithredu mor effeithiol ag y gallent. Mae'r adroddiadau caffael a thrafodaethau'r Pwyllgor yn nodi bod yr Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau caffael.

70 Mae cyllid cyfalaf yr Ymddiriedolaeth yn dod i gyfanswm o £1.61 miliwn ar gyfer 2018-19. Cafodd cyfanswm o £1.13 miliwn o'r cyfalaf dewisol ei ddyrannu i ystod o gynlluniau, gyda swm bach (£163,000) heb ei ddyrannu yn cael ei gadw wrth gefn. Mae cyllid cyfalaf strategol (£322,000) wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygu system wybodaeth newydd ar gyfer gwasanaeth Sgrinio Serfigol Cymru. Ar ddiwedd mis Hydref 2018, bu cynnydd o £100,000 yn y cyfalaf dewisol heb ei ddyrannu gan na fyddai'r holl ddyraniad cyfalaf strategol ar gyfer system wybodaeth y gwasanaeth sgrinio serfigol yn cael ei wario erbyn diwedd mis Mawrth 2019. Fodd bynnag, mae gwariant ar gynlluniau cyfalaf dewisol ar ei hôl hi ac, ar ddiwedd mis Hydref, roedd llai nag 8% o'r cyllid oedd wedi'i wario.

71 Mae sail asedau'r Ymddiriedolaeth yn gymharol fach ac, er nad oes yna gynllun rheoli asedau cyffredinol, mae ganddi gofrestr asedau gynhwysfawr ar gyfer ei hystâd rhydd-ddaliad a'i chyfarpar. Mae'r gofrestr asedau yn cael ei chynnal gan unigolyn dynodedig yn y tîm cyllid, ac mae polisïau a gweithdrefnau corfforaethol a lleol yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli a gwaredu asedau. Mae'r gofrestr asedau yn nodi maint a chost amnewidynnau, tra bod gwybodaeth am raglen amnewid cyfalaf yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf wedi'i hamlinellu yn adroddiad perfformiad integredig y bwrdd ym mis Gorffennaf 2018.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Ymddiriedolaeth yn 2018.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mai 2018 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2018 |
| Llythyr – Materion yn codi o archwiliad 2017-18 | Medi 2018 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Asesiad Strwythuredig 2018 | Tachwedd 2018 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2018 | Mawrth 2018 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2018 ffi archwilio arfaethedig o £151,155 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Text phone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru